| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **21 Mawrth 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â chyflwyno Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I ddwyn sylw'r Aelodau at gyflwyno llyfr achosion Cod Ymddygiad gan yr Ombwdsmon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi llyfr achosion Cod Ymddygiad a gyflwynwyd a chynnwys y rhifyn cyntaf.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Ers blynyddoedd lawer mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi llyfr achosion chwarterol mewn perthynas â chwynion sydd wedi eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â chamweinyddu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n galluogi awdurdodau ac aelodau o'r cyhoedd i weld sut mae cwynion wedi cael sylw a mesurau a roddwyd ar waith i'w datrys.

4.2 Bu galwadau am beth amser i lyfr achosion tebyg gael ei gyhoeddi mewn perthynas â'r gwaith a wneir gan yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion a wneir mewn perthynas ag ymddygiad aelodau etholedig.

4.3 Mae'r Ombwdsmon wedi ei chael yn fwy o her i gynhyrchu llyfr achosion Cod Ymddygiad. Tra bod swyddfa'r Ombwdsmon yn gallu gwneud argymhellion ynglŷn â phenderfyniad a chyhoeddi adroddiadau ar ganlyniad yr achosion hyn mewn achosion o gamweinyddu, mewn achosion Cod Ymddygiad mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio ac yna'n cyfeirio at naill ai Bwyllgor Safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru. Felly mae wedi bod yn anoddach i'r Ombwdsmon ddarparu crynodeb o'r achos o'r gŵyn i'r gwaredu.

4.4 Caiff llyfr achosion y Cod Ymddygiad newydd ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn a bydd yn cynnwys crynodebau o'r holl achosion mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad arnynt yn y chwe mis blaenorol.

4.5 Lle mae'r achosion hynny wedi'u cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, bydd dolen yn cael ei ddarparu yn y fersiwn electronig o'r llyfr achosion i'r adroddiad llawn o ganlyniad yr achos a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor neu'r Panel perthnasol.

4.6 Mae'r Ombwdsmon yn gobeithio y bydd cyhoeddi'r crynodebau hyn yn helpu Aelodau ac eraill wrth ystyried a yw amgylchiadau y gallant eu profi yn gyfystyr â thorri'r Cod. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod yn cynnwys enghreifftiau a dynnwyd o sefyllfaoedd bywyd go iawn ac mae'n debygol y bydd cyhoeddiad rheolaidd o grynodebau o achosion cyfredol o gymorth mawr wrth helpu aelodau ac eraill i ddeall gweithrediad y Cod yn well.

4.7 Bydd y llyfr achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod sancsiynau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.

4.8 Mae rhifyn cyntaf y llyfr achosion ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac mae'n cynnwys manylion materion y cwblhaodd yr Ombwdsmon ymchwiliad a chyhoeddi adroddiad arnynt rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2013.

4.9 Bydd Aelodau'n nodi bod y rhan fwyaf o achosion o doriadau lle'r oedd cwynion amdanynt yn y rhifyn hwn o lyfr achosion y Cod Ymddygiad sy'n ymwneud â'r gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill a chofrestru a datgelu buddiannau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000